Ar nos Lun, Chwefror 27ain braf oedd cael croesawu Mr Eddie Jones atom i Glwb yr Urdd. Treuliwyd awr yn mwynhau dawnsio gwerin yn ei gwmni ac mae nifer fawr o'r plant yn edrych ymlaen at sesiwn arall debyg.

Aeth plant dosbarth 3 ynghŷd â Miss M.P. Jones ar ymweliad i Orsaf y Frigâd Dân yn Aberystwyth un bore a threulio amser difyr iawn yn gweld yr holl offer a'r dulliau diweddaraf oedd gan y gweithwyr i hwyluso eu gwaith.

Bu Dydd Mercher, Mawrth laf yn ddiwrnod prysur iawn pan gynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi yr ysgol. Gweithiodd y ddau dîm yn galed ac ar ddiwedd y dydd Seilo oedd yn fuddugol o dan gapteniaeth Alun Price a Melanie Evans. Roedd Stewi yn glòs ar eu sodlau, diolch i ymdrechion glew Adrian Paddock a Sioned Thomas. Beirniaid y dydd oedd Mrs Anthony Jones a Mr Dilwyn Jones o Aberystwyth a mawr yw ein diolch iddynt am eu cyfraniad i lwyddiant y dydd.

Dyma'r canlyniadau:

<u>Unawdau</u>
Babanod 1 - Eleanor Francis
Babanod 2 - Gareth Williams
Babanod 3 - Dylan James
Safon 1 - Lynne Hughes
Safon 2 - Emma Egan
Safon 3 - Charlotte Read
Safon 4 - Melanie Evans